# PWYLLGOR CYNLLUNIO
# 25 EBRILL 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 25 Ebrill 2018.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Carol Ellis, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Billy Mullin, Mike Peers a Neville Phillips

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Chris Bithell, David Evans, Kevin Hughes, Richard Lloyd ac Owen Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mynychodd y canlynol fel Aelodau lleol:
Y Cynghorydd Glyn Banks – Ar gyfer eitem 6.1 (057971) ar y rhaglen
Y Cynghorydd Tony Sharps – Ar gyfer eitem 6.2 (057919) ar y rhaglen

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth; Arweinydd Tîm - Cynllunio; Uwch Gynllunwyr; Uwch Gyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 75. DATGAN CYSYLLTIAD

Ar eitem rhif 6.1 (057971) ar y rhaglen, datganodd y Cynghorydd Glyn Banks – oedd yn siarad fel Aelod lleol – gysylltiad personol gan ei fod yn Aelod o Fwrdd NEW Homes.

Ar eitem rhif 6.2 (057979) ar y rhaglen, datganodd y Cynghorydd Marion Bateman gysylltiad personol sy'n rhagfarnu gan ei bod yn aelod o Eglwys Llaneurgain, a byddai'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais.

## 76. SYLWADAU HWYR

Ni dderbyniwyd dim.

## 77. COFNODION

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod ar 28 Mawrth 2018 eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 78. EITEMAU I'W GOHIRIO

Fe awgrymodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd ac Economi) bod yr eitem ganlynol yn cael ei gohirio, er mwyn i adroddiad diwygiedig gael ei

gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. Fe fyddai hyn yn cymryd i ystyriaeth y materion sydd wedi codi ers cyhoeddi’r rhaglen.

**Eitem rhif 6.3 ar y rhaglen Newid Defnydd ac estyniad i annedd i ffurfio Tŷ Amlfeddiannaeth yn 46 Gladstone Road, Brychdyn (058024)**

Cynigiodd y Cynghorydd Dunbar bod yr eitem yn cael ei gohirio a chafodd ei eilio a’i gytuno gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Bod eitem rhif 6.3 ar y rhaglen yn cael ei ohirio i gyfarfod nesaf y Pwyllgor am y rheswm a nodwyd.

**79. ADRODDIADAU’R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Cais Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

**80. AELODAU’R CYHOEDD A’R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau’r cyfarfod roedd 5 aelod o’r cyhoedd a neb o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 2.10pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy ymweld â’r llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 25 EBRILL 2018**

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 057971 | Cyngor Cymuned Llanasa | Cais Llawn - Datblygiad preswyl ar gyfer 27 o anheddau a gerddi cysylltiedig â maes parcio yn Llys Dewi, Penyffordd, Treffynnon. | Siaradodd Mr D. Halliday (ar ran yr ymgeisydd) o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Glyn Banks, fel aelod lleol o blaid y cais hefyd. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn adroddiad y swyddog, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 057919 | Cyngor Cymuned Northop Hall | Newid defnydd annedd i dŷ amlfeddiannaeth yn Wellfield Farm, Village Road, Northop Hall. | Siaradodd y Parchedig Dr. R. Hainsword (ymgeisydd), o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Tony Sharps, fel Aelod lleol, yn erbyn y cais.<br><br>Ni siaradodd y Cynghorydd Marion Bateman, a oedd wedi datgan cysylltiad personol sy’n rhagfarnu, am yr eitem, a gadawodd yr ystafell cyn y drafodaeth, gan ddychwelyd ar ôl y penderfyniad ar y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn adroddiad y swyddog, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 058024 | Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton | Newid Defnydd ac estyniad i annedd i ffurfio Tŷ Amlfeddiannaeth yn 46 Gladstone Road, Brychdyn | - | Bod yr eitem yn cael ei gohirio er mwyn i adroddiad diwygiedig gael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael. |
| **APÊL** | | | **NODWYD** | |
| 057109 | | Apêl gan Mr Mr Glyn Jones yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer codi un annedd yn Serengeti, Gorsedd, Treffynnon – **GWRTHODWYD.** | | |